



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd am 11:00 ar 28 Gorffennaf 2022
(dros Microsoft Teams
a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus Academaidd)
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
Siân Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Hefyd yn Bresennol:		
Sumina Azam	(SA)	Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Pennaeth Polisi, Dirprwy Gyfarwyddwr (Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd)
Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru

Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio
Angela Jones	(AnJ)	Cyfrwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undebau Llafur y Staff (o 11.20am ymlaen)

Ymddiheuriadau:

Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
Fu-Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Undeb Llafur Ochr y Staff
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 11am

PHW 1/2022.07.28 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan roi croeso cynnes i'r rhieni a oedd yn gwylio'r trafodion ar-lein. Crynhodd rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: ddatblygu strategaeth a rhoi cyfeiriad iddi; adeiladu a chynnal partneriaethau strategol; pennu'r archwaeth am risg a goruchwyllo risgiau strategol; craffu ar y cyflawniad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

Mewn perthynas â'r rôl olaf hwn, mabwysiadodd y Bwrdd ddiwylliant dysgu, lle y gallai pawb ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain ar eu gorau, heb ofni gwahaniaethau neu anfantais o unrhyw fath. Cynhaliodd y Bwrdd ei fusnes yn unol ag ymddygiad ffurfiol Bwrdd, y mae ei fanylion i'w gweld ar y wefan. Mae hyn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, a gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i drafod ar y diwrnod. Glynodd y Bwrdd hefyd at Werthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio gydag Ymddiriedaeth a Pharch er mwyn Gwneud Gwahaniaeth.

Nododd JW fod trafodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol wedi ysgogi agenda byrrach ar gyfer y cyfarfod hwn, gyda ffocws ar gyflawni o fewn y flwyddyn yn erbyn y cynlluniau, nifer o faterion llywodraethu ac ystyriaeth o'r cynigion gan

Lysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch ymgysylltu â'r Bwrdd. Cyflwynodd yr adroddiad Perfformiad a Mewnwelediadau ddangosfwrdd sicrwydd perfformiad Trosolwg Cyflym o Iechyd Cyhoeddus hefyd, sy'n nodwedd newydd a fyddai'n hwyluso ffocws gwell ar lefel y Bwrdd ar y materion iechyd cyhoeddus mawr sy'n wynebu Cymru.

PHW 2/2022.07.28 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb.

Cyfeiriodd JW at bwysigrwydd datgan achosion o wrthdaro buddiannau, fel gofyniad ar gyfer ymarfer llywodraethu da. Rhoddodd wahoddiad i HB grynhoi'r ddarpariaeth a nodir yn y Rheolau Sefydlog, i gynorthwyo aelodau newydd o'r Bwrdd.

Crynhodd HB y gofyniad i sefydlu cofrestr gwrthdaro buddiannau, yr angen i aelodau'r Bwrdd ei hystyried ac i hysbysu ynghylch unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes sy'n cyfiawnhau datganiad; roedd y gofrestr yn destun arolwg pob chwe mis.

PHW 3/2022.07.28 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**PHW 3.1/2022.07.28 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd TC yr adroddiad a thynnodd sylw at y materion a ganlyn:

- Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU (yr Ymchwiliad), a gadeiriwyd gan y Farwnes Hallett. Tynnodd sylw at y Cylch Gorchwyl a gadarnhawyd ac at wybodaeth bellach a ddarparwyd ar ôl drafftio'r adroddiad fel Datganiad Agoriadol (gellir cael mynediad at hwn drwy'r ddolen a ganlyn: [UK-Covid19-Inquiry-Launch-Statement.pdf](#))

Byddai'r Ymchwiliad yn mabwysiadu dull modiwlwr â thema, gyda'r tri modiwl cyntaf wedi'u cadarnhau fel a ganlyn:

- Paroddrwyd y DU am argyfyngau sifil y system gyfan, gan gynnwys darparu adnoddau, y system rheoli risg a pharoddrwyd am bandemig.
- Llywodraethu a gwneud penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd.
- Effaith Covid, a'r ymatebion llywodraethol a chymdeithasol iddo, ar systemau gofal iechyd ac ar gleifion, a gweithwyr a staff ysbytai a gofal iechyd.

Byddai gwrandawiadau rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 1 yn dechrau ym mis Medi 2022; byddai gwrandawiadau cyhoeddus yn dechrau yn gynnar yn 2023. Roedd TC yn disgwyl i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael statws 'cyfranogwr craidd' ac amlinellodd y gwaith paratoi sydd ar y gweill ar draws y sefydliad.

- Y Cyfarfod Atebolrwydd ar ddiwedd y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf 2022, gyda ffocws ar: y perfformiad yn erbyn y Cynllun

Gweithredol; y gwersi a ddysgwyd yn 2021/2022; a blaenoriaethau a chynlluniau Gweinidogion ar gyfer 2022/2023. Bu'r cyfarfod yn adeiladol, gan gwmpasu ehangder sylweddol yr agenda a chydabod ymrwymiad parhaus yr holl staff.

- Y cyfarfod y gwnaeth hi, y cadeirydd a Julie Bishop ei gynnal gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 8 Mehefin 2022. Mae hyn wedi arwain at nifer o gomisiynau gan y Gweinidog ac adlewyrchodd JW ar ailddechrau'r rhaglen o gyfarfodydd Gweinidogol, a oedd i'w groesawu, a oedwyd pan oedd y pandemig ar ei anterth. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle pwysig i JW a TC ddysgu mwy am sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogi'r broses o ddarparu'r Rhaglen Lywodraethu.
- Agoriad y Ganolfan Sgrinio newydd yn Aberpennar. Cyngorodd TC mai dyma'r ganolfan sgrinio gyntaf o'i math, mewn lleoliad stryd fawr ac yn cwmpasu nifer o raglenni sgrinio, a ddyluniwyd i wella hygyrchedd y cyhoedd.
- Estynnodd TC groeso cynnes i Angela Jones fel y Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Dros Dro a nododd y cyfraniad sylweddol y mae AnJ wedi'i wneud eisoes.
- Yn olaf, rhoddodd TC wahoddiad i AJ roi diweddariad ar COVID-19 a Brech y Mwncïod.

Ynghylch COVID-19, adroddodd AJ ei bod yn ymddangos bod y lefelau uchel o haint yn y gymuned yn ddiweddar (1 mewn 17 o bobl) wedi lefelu. Roedd cyfraddau'r derbyniadau i'r ysbyty, yn enwedig i'r rheini sy'n 60 oed a hŷn, wedi dechrau gostwng hefyd. Mae dechrau gwyliau'r haf wedi helpu gyda'r gostyngiad yn y gyfradd, er bod yr achosion mewn lleoliadau preswyl wedi parhau, gyda COVID-19 yn bresennol mewn 55 o dai gofal preswyl ledled Cymru ar 20 Gorffennaf 2022.

O ran Brech y Mwncïod, nododd AJ natur fyd-eang y lledaeniad. Ar 23 Gorffennaf, dynododd Sefydliad Iechyd y Byd Frech y Mwncïod yn argyfwng iechyd cyhoeddus rhyngwladol, penderfyniad a gymerwyd i ysgogi cydweithredu a chydlynu rhyngwladol pellach. Yn y DU, roedd y rhan fwyaf o'r achosion yn arwain at salwch ysgafn, gyda'r nifer fwyaf yn Llundain ac ychydig o ddinasoedd mawr eraill. Ar 27 Gorffennaf, roedd 30 o achosion yng Nghymru, gyda chyflwyniad cyson o oddeutu chwe achos newydd pob wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion yng Ngogledd Cymru. Cadarnhaodd AJ bod olrhain cysylltiadau ar waith gyda llwybrau clinigol y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu ar draws y pedair gwlad a rhoddwyd blaenoriaeth i'r ardaloedd lleol sydd ag achosion. Mae argaeledd y brechlyn wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd ond disgwylir iddo gynyddu erbyn mis Medi. Gorffennodd AJ drwy gadarnhau bod gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddarpariaeth y brechlyn.

Diolchodd JW i TC am ei diweddariad eang, ac i AJ am ei wybodaeth ychwanegol; yna gwahoddodd gwestiynau:

- Diolchodd DE i TC ac AJ am eu hadroddiadau cynhwysfawr. Croesawodd agoriad yr Hyb Sgrinio newydd yn Aberpennar a gofynnodd am y mesurau sydd ar waith i asesu a yw'r hygyrchedd gwell wedi effeithio ar y cyfraddau defnydd. Cadarnhaodd HG y bu hyn yn egwyddor dylunio ategol ac y byddai data ar y cyfraddau derbyn apwyntiad yn cynorthwyo i hysbysu unrhyw gamau pellach i gyflwyno'r model.
- Tynnodd SG sylw at y cyfeiriad yn Adroddiad TC at ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arweinyddiaeth system bwysig a gofynnodd SG am ddiweddariadau rheolaidd ar lefel y Bwrdd ar ganfyddiadau a goblygiadau'r Pwyllgor. Nododd AnJ bwysigrwydd defnyddio lens anghydraddoldebau iechyd meddwl ar gyfer yr holl raglenni ac roedd yn edrych ymlaen at weld canfyddiadau'r Pwyllgor i hysbysu'r gwaith sydd ar y gweill. Awgrymodd JW y dylai AnJ ddiweddarau'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2022, fel rhan o'r gwaith craffu manwl a wneir ar Gynllun Gweithredu 2022/23 ar ôl chwe mis.

Camau gweithredu: AnJ

Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r drafodaeth.

PHW 3.2/2022.07.28 Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 3)

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad, nododd HG y gwaith sy'n mynd rhagddo i goethi'r dull o adrodd materion allweddol i'r Bwrdd. Adlewyrchodd yr Adroddiad ar gyfer mis Mehefin 2022 y datblygiad parhaus hwn a chyflwynodd safbwynt ychwanegol, gan anelu at ganfod heriau lefel iechyd y boblogaeth a rheoli'r rhain fel un o'i themâu allweddol.

Yna, gwahoddodd HG yr arweinwyr gweithredol i roi sylwadau ar eu meysydd eu hunain:

- Tynnodd NL sylw at y pwyntiau a ganlyn:
 - Cynnydd bychan yn y gyfradd salwch ac absenoldeb i 3.9%; amlinellodd NL y gwaith â ffocws sy'n mynd rhagddo mewn gwella iechyd, sgrinio a microbiolog, fel y timau â'r cyfraddau salwch/absenoldeb uchaf.
 - Parhaodd COVID-19 i gyfrannu at salwch staff, gyda 16 ohonynt wedi'u heffeithio ar hyn o bryd.
 - Ffocws y Pwyllgor Pobl a Datblygiad Sefydliadol ar y dangosfwrdd cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Ar gyfer Cyllid, amlygodd HG:

- Y rhagolwg sy'n parhau ynghylch sefyllfa o adennill costau ariannol. Atgoffodd AG y Bwrdd o Strategaeth Gyllideb 2022/23 a'i darpariaethau;
 - Y cynnydd gyda 51% o'r gwariant cyfalaf a ddisgwylir, sy'n arwydd calonogol ar y cam cynnar hwn o'r flwyddyn;
 - Y gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru o gwmpas gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd y rhagolwg presennol yn dangos gostyngiad mewn gwariant, sy'n gysylltiedig â lefelau is o brofi a dilyniannu genomig; mae Llywodraeth Cymru wedi talu'r gost hon, ar sail adlenwi misol.
- Nododd:
 - Y gostyngiad yng nghyfradd y rhaglen frechu reolaidd 6 mewn 1 i blant i islaw 95% am y tro cyntaf mewn degawd. Cadarnhaodd AJ fod rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cwmpasu gwyliadwriaeth a hyfforddi yn hytrach na chyflenwi. Roedd gan y Byrddau Iechyd ddata gwyliadwriaeth, ynghyd ag adroddiadau ychwanegol i gefnogi eu camau gweithredu. Nododd fod y cysylltiadau rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol â'r cyfraddau brechu yn llai amlwg ar gyfer brechlynnau cynharach i blant.
 - Nododd RBW:
 - Fod 202 o ddigwyddiadau wedi'u nodi ym mis Mehefin 2022, ac maent yn parhau i fod o fewn y cyfnod o 30 diwrnod ac ar agor ar hyn o bryd. Adroddwyd un 'digwyddiad dim syndod' i Lywodraeth Cymru, ynghylch tor diogelwch data. Roedd yr ymchwiliad bellach yn dod i ben ac roedd y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cadarnhau na fyddai'n angenrheidiol cymryd unrhyw gamau pellach.
 - Perfformiad 100% o ran ymateb i gwynion ar draws yr holl fesurau; roedd y canmoliaethau wedi cynyddu, gyda 90% o'r rheini yn cydnabod ymagwedd bositif y staff yn Sgrinio Coluddion Cymru. Roedd un cais am esgeulustra a oedd yn ymwneud â Bron Brawf Cymru.
 - Byddai cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi yn cynnwys adroddiad llawn ar y risgiau strategol.

Yna rhoddodd HG wahoddiad i IB i roi diweddariad ar yr ychwanegiad i'r Adroddiad Perfformiad a fyddai'n adlewyrchu'r heriau iechyd ar lefel y boblogaeth.

- Cynghorodd IB:
 - Y byddai'r adran hon o'r Adroddiad yn parhau i ddatblygu ac esblygu. Roedd y ffocws gwreiddiol yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw a sut yr oedd y cyfraddau uwch o chwyddiant, sy'n gysylltiedig â chyfradd is o dwf mewn cyflogau, wedi arwain at ostyngiad yn yr incwm sydd ar gael. Byddai'r rhagfynegiadu y bydd costau tanwydd yn codi ymhellach yn y gaeaf sydd i ddod yn ychwanegu at y pwysau presennol o ran cost a nodwyd y risg cynyddol o niwed ar lefel y boblogaeth.

- Gan adlewyrchu ar yr effeithiau ar y boblogaeth, nododd IB y gwaith a gynlluniwyd i gefnogi staff a chyfeirio pobl i'r cymorth sydd ar gael.
- Gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor hefyd i gefnogi'r datblygiadau polisi perthnasol; roedd y polisi prydau ysgol am ddim yn un enghraifft o hyn.

Diolchodd HG i IB am y diweddariad a chroesawodd y safbwynt a'r ffocws newydd hwn o fewn yr adroddiad perfformiad. Rhoddodd JW wahoddiad i SA i ychwanegu ei sylwadau. Croesawodd SA y ffaith bod y dangosfwrdd newydd wedi'i gynnwys a chadarnhaodd y bwriad i ystyried safbwynt y boblogaeth ar lefel ryngwladol.

Gwahoddodd JW sylwadau a chwestiynau:

- Croesawodd SG ddatblygiad yr ychwanegiad hwn ac adlewyrchodd ar bwysigrwydd effeithiau costau byw ar iechyd cyhoeddus. Canmolodd y gwaith a gofynnodd am sicrwydd ynghylch ei ddosbarthiad eang. Cadarnhaodd JW y cynlluniau i wneud hyn, gan gynnwys ar lefel Weinidogol, Llywodraeth Cymru, ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Nododd y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r papurau a'r drafodaeth.

PHW 3.3/2022.07.28 Ymgysylltiad Pobl Ifanc

Wrth gyflwyno'r drafodaeth hon, nododd RBW yr amrywiaeth o waith sydd ar y gweill ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgysylltu â phobl ifanc a grwpiau poblogaeth ehangach. Roedd y pandemig wedi cael effaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan arwain at oedi'r gwaith gyda'r Llysgenhadon Ifanc, ond roedd y digwyddiad preswyl dau ddiwrnod diweddar wedi aildddechrau'r drafodaeth am ymgysylltu â'r Bwrdd. Roedd hyn wedi cloi gyda chynnig i sefydlu Fforwm Partneriaeth y Bwrdd Llysgenhadon Ifanc, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Adeiladodd hyn hefyd ar drafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant a nododd RBW ei bwriad i gysylltu â'r Comisiynydd Plant newydd.

Diolchodd JW i RBW am y papur manwl a'i diweddariad ar lafar; roedd JW wedi croesawu'r cyfle i ymuno â'r Llysgenhadon Ifanc ar eu digwyddiad preswyl diweddar a nododd yr egni a'r brwdfrydedd yn yr ystafell. Yna, gwahoddodd JW sylwadau a chwestiynau:

- Adlewyrchodd DC ar ei hymgysylltiad â'r Llysgenhadon Ifanc a disgrifiodd y grŵp fel un ysbrydoledig. Ceisiodd gadarnhad ynghylch cynnwys y dull gwerthuso i asesu budd a llwyddiant y Fforwm arfaethedig a rhoddodd RB y sicrwydd hwnnw.

Ystyriodd y Bwrdd yr adborth o ddigwyddiad preswyl y Llysgenhadol Ifanc a **chymeradwyodd** sefydliad Fforwm Partneriaeth y Bwrdd Llysgenhadon Ifanc.

PHW 3.4/2022.07.28 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Wrth gyflwyno'r eitem hon, amlinellodd JW rôl y Pwyllgorau o ran gweithredu rhaglenni gwaith blynyddol ar ran y Bwrdd. Nododd fod yr adroddiad cyfansawdd bellach yn cynnwys dolenni i holl bapurau cyfarfodydd diweddar y Pwyllgorau sy'n gyhoeddus. Gwahoddodd JW bob Cadeirydd Pwyllgor i roi diweddariad ac i nodi unrhyw faterion penodol:

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Rhoddodd KE ddiweddariad ar lafar ar gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, pan wnaeth y Pwyllgor:

- Gynnal arolwg dwfn o bob agwedd ar ymgysylltiad defnyddwyr, gan gynnwys y Llysgenhadon Ifanc a system newydd i gynyddu i'r eithaf ymgysylltiad defnyddwyr y gwasanaethau yn genedlaethol;
- Cynnal sesiwn estynedig gyda Verity Winn o Archwilio Cymru ar ei hadroddiad ar lywodraethu ansawdd. Roedd hwn yn cynnwys argymhellion cadarnhaol a defnyddiol y byddai'r Pwyllgor yn eu hystyried, i gynorthwyo i yrru eu gweithrediad ar draws y sefydliad.

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Yn ogystal â'r Adroddiad a ddarparwyd, tynnodd DE sylw at gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Estynnodd DE ei ddiolch i MM am gadeirio'r cyfarfod ar ei ran.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

Cadarnhaodd SG fod gwaith yn parhau i ddatblygu'r strategaethau ymchwil a data. Tynnodd sylw at y sleidiau gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau a gyflwynwyd yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor, gan nodi'r bwriad i weithio'n agos gyda thîm y Swyddfa.

Nododd y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd yn yr Adroddiadau a **chafodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r drafodaeth.

PHW 4/2022.07.28 Eitemau i'w Cymeradwyo

PHW 4.1/2022.07.28 Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (26 Mai 2022 a 14 Mehefin 2022)

Cymeradwyodd y Bwrdd Gofnodion 26 Mai a 14 Mehefin 2022 fel cofnodion cywir o'r naill gyfarfod a'r llall.

Cadarnhaodd HB fod pob cam gweithredu ond dau, sydd ar y trywydd cywir, wedi'u cwblhau.

PHW 4.2/2022.07.28 Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau

Nododd HB fod angen arolwg blynyddol o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth o dan y Rheolau Sefydlog, gyda'r olaf wedi'i gynnal ym mis Mai 2021. Roedd arolwg

2022 wedi arwain at y gwelliannau a awgrymwyd a nodwyd yn yr adroddiad ac a argymhellwyd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Ystyriodd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor a **chymeradwyodd** y diwygiadau.

PHW 4.3/2022.07.28 Polisiâu, Gweithdrefnau a Pholisiâu Rheoli Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill

Nododd HB ddiweddariad y Polisi hwn i adlewyrchu gofynion y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Awgrymodd SW y dylid rhannu'r holl bolisiâu gyda'r Undebau Llafur, ac nid y rheini yr oedd angen ymgynghori arnynt yn unig. Byddai hyn yn cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r holl bolisiâu sy'n bodoli.

Camau gweithredu: HB

Ystyriodd y Bwrdd y Polisi a ddiweddarwyd ar gyfer rheoli Polisiâu Corfforaethol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru; **ystyriodd** y wybodaeth o fewn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a **chymeradwyodd** y ddogfen PHW 47 - Polisiâu Corfforaethol, Gweithdrefnau a Pholisi Rheoli dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill.

PHW 5/2022.07.28 Eitemau i'w Nodi

PHW 5.1a/ 2022.07.28 Adroddiad y Cadeirydd (26 Mai 2022)

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 26 Mai 2022.

PHW 5.1b/2022.07.08 Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru: y Blaengynllun 2022/23

Nododd y Bwrdd y Blaengynllun 2022/23.

PHW 6/2022.07.28 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd

Mae cyfarfod nesaf y Bwrdd i'w gynnal ar 29 Medi 2022.

PHW 7/2022.07.28 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Cyfluoedd JW werthfawrogiad y Bwrdd ynghylch sut y mae SA wedi camu i'r bwlch dros MB a diolchodd iddi am arwain y Gyfarwyddiaeth gyda phenderfyniad ac ymrwymiad yn ystod ei absenoldeb. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei hun yn lwcus y gall alw ar brofiad a thalent SA ac roedd yn gobeithio y bu'r profiad yn un cadarnhaol iddi.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40